Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1305 (Cy. 211) (C. 67)

# ARDOLL YMWELWYR, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (Cychwyn) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r unig orchymyn cychwyn sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru, darpariaeth i roi'r pŵer i brif gynghorau i gyflwyno ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn eu hardaloedd, darpariaeth i ACC gasglu a rheoli'r ardoll ar ran prif gynghorau, a darpariaeth i wneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) ("DCRhT 2016").

Dygwyd y rhannau a ganlyn o'r Ddeddf i rym gan adran 67(1) o'r Ddeddf ar 19 Medi 2025, sef drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1 (trosolwg o'r Ddeddf),

(b) Rhan 3 (ardoll ymwelwyr) (gan gynnwys Rhan 2 o Atodlen 2), ac

(c) Rhan 4 (darpariaeth amrywiol a chyffredinol), ac eithrio Pennod 1 o Ran 4 fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr o dan Ran 2.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yr holl ddarpariaethau sy'n weddill o'r Ddeddf ac yn dwyn i rym yn llawn Bennod 1 o Ran 4.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf ar 1 Hydref 2026. Mae'r darpariaethau hyn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ac yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghofnod darparwr llety ymwelwyr yn y gofrestr,

(b) yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig, i hysbysu ACC am unrhyw newid neu anghywirdeb yn eu cofnod yn y gofrestr, ac i wneud cais i ACC i gael eu dileu o'r gofrestr pan nad ydynt yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mwyach,

(c) yn pennu'r gofynion ar gyfer cais i fod yn gofrestredig,

(d) yn rhoi pwerau i ACC i gofrestru personau pan na fo cais wedi ei wneud i ACC, i newid y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi i ACC, i wneud gwybodaeth yn ofynnol, ac i ddileu person o'r gofrestr pan na fo'r person wedi gwneud cais i gael ei ddileu,

(e) yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch y gofrestr a gofynion cofrestru,

(f) yn cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 2, sy'n gwneud diwygiadau i DCRhT 2016, ac i Ddeddfau eraill, sy'n ymwneud â Rhan 2 o'r Ddeddf,

(g) yn gwneud diwygiadau i DCRhT 2016 fel bod y gyfundrefn ar gyfer adolygiadau ac apelau yn y Ddeddf honno yn gymwys i benderfyniadau sy'n ymwneud â'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr o dan Ran 2 o'r Ddeddf,

(h) yn sefydlu sut y mae cofrestru'n gymwys pan fo'r darparwr llety ymwelwyr yn bartneriaeth neu'n gorff anghorfforedig, ac

(i) yn nodi ar bwy y mae dyletswyddau neu atebolrwyddau mewn nifer o achosion arbennig fel y maent yn gymwys mewn perthynas â'r gofrestr o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2027. Mae'r darpariaethau hyn yn cyflwyno cyfundrefn gosbau sy'n gymwys pan fo darparwr llety ymwelwyr yn methu â chofrestru, yn methu â hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau, yn methu â chydymffurfio â hysbysiad i ddarparu gwybodaeth benodol, neu'n methu â gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1305 (Cy. 211) (C. 67)

# ARDOLL YMWELWYR, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (Cychwyn) 2025

*Gwnaed* *10 Rhagfyr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 67(2) a (3)(b) o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (Cychwyn) 2025.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2026**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2026—

(a) adran 4 (cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr);

(b) adran 5 (dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig);

(c) adran 6(1) i (4) (ceisiadau i fod yn gofrestredig);

(d) adran 8 (pŵer i gofrestru personau pan na fo cais wedi ei wneud i ACC);

(e) adran 9 (dyletswydd i hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau);

(**1**) 2025 dsc 5.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(f) adran 11(1) i (3) (pŵer i newid y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi i ACC);

(g) adran 12 (pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol);

(h) adran 14 (dileu person o'r gofrestr ar gais i ACC);

(i) adran 16(1) i (3) (pŵer i ddileu person o'r gofrestr pan nad oes cais wedi ei wneud);

(j) adran 23 (adolygiadau ac apelau) at bob diben ac eithrio mewn cysylltiad â phenderfyniad sy'n ymwneud â chosb o dan Ran 2 o'r Ddeddf;

(k) adran 24 (cofrestru partneriaethau a chyrff anghorfforedig);

(l) adran 25(a) a (b) (dehongli'r Rhan);

(m) adran 26 (cofrestru: pwerau i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol);

(n) adran 27 (diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016([1]) etc.);

(o) adran 55 (ystyr "busnes perthnasol" yn y Bennod hon) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(p) adran 56(1) i (6) (dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(q) adran 57 (pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(r) adran 58 (marwolaeth, analluedd ac ansolfedd) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(s) adran 59 (pŵer i wneud darpariaeth ynghylch marwolaeth, analluedd, ansolfedd ac achosion pan fo person yn peidio â bodoli) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(t) adran 60 (pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(u) Atodlen 1 (yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr);

(v) Rhan 1 o Atodlen 2 (diwygiadau sy'n ymwneud â Rhannau 2 a 3).

---

(**1**) 2016 dccc 6.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2027**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2027—

(a) adran 6(5) (ceisiadau i fod yn gofrestredig);

(b) adran 7 (cosbau am fethu â chofrestru);

(c) adran 10 (cosbau am fethu â hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau);

(d) adran 11(4) (pŵer i newid y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi i ACC);

(e) adran 13 (cosbau am fethu â chydymffurfio â hysbysiad o dan adran 12);

(f) adran 15 (cosbau pan fo person yn methu â gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr);

(g) adran 16(4) (pŵer i ddileu person o'r gofrestr pan nad oes cais wedi ei wneud);

(h) adran 17 (esgus rhesymol);

(i) adran 18 (pwerau i ostwng cosbau, eu hepgor neu eu gohirio);

(j) adran 19 (asesu cosbau);

(k) adran 20 (talu cosbau);

(l) adran 21 (gwahardd cosbi ddwywaith);

(m) adran 22 (atebolrwydd cynrychiolwyr personol);

(n) adran 23 (adolygiadau ac apelau) at yr holl ddibenion sy'n weddill;

(o) adran 25(c) (dehongli'r Rhan);

(p) adran 56(7) (dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
10 Rhagfyr 2025